

Adolygiad o'r gofal a ddarparwyd i gleifion ag anabledd dysgu neu broblem iechyd meddwl yn:

**Ysbyty Annibynnol Iechyd Meddwl
Llanarth Court, Rhaglan,
Brynbuga, NP15 2YD**

**Dyddiadau'r ymweliadau:
16 a 17 Awst a 19 Medi 2011**

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

	Rhif y Dudalen
1. Cyflwyniad a Chefndir	1
2. Ein Canfyddiadau	6
3. Casgliad	16
4. Gofynion	17
5. Y Camau Nesaf	21

1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, ac mae'n cyflawni'r swyddogaeth honno ar ran Gweinidogion Cymru a ddynodwyd, trwy awdurdod Deddf Llywodraeth Cymru 2006, fel yr awdurdod cofrestru ar gyfer Cymru.

1.2 Rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol¹ fod wedi eu cofrestru ag AGIC cyn iddynt gael darparu gwasanaethau yng Nghymru, ac er mwyn cofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae mwy o wybodaeth am y Safonau a'r rheoliadau cysylltiedig ar gael yn www.agic.org.uk.

1.3 Ym mis Mai 2011, darlledwyd rhaglen yng nghyfres deledu ymchwiliol y BBC, *'Panorama'*, yn tynnu sylw at achosion o gam-drin unigolion ag anabledd dysgu a oedd yn byw mewn ysbyty annibynnol ym Mryste. Arweiniodd y rhaglen at bryder mawr ymhlith y cyhoedd, sy'n gwbl ddealladwy. O ganlyniad, penderfynodd AGIC ddwyn ymlaen ein rhaglen flynyddol o adolygiadau o ysbytai annibynnol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer anawsterau dysgu ac iechyd meddwl.

1.4 Pwyslais yr adolygiadau oedd sicrhau bod unigolion a oedd yn defnyddio gwasanaethau o'r fath yn:

- ddiogel;
- derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol;
- derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol;
- cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth;
- cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd;
- cael gwneud dewisiadau, ac yn cael eu hannog i wneud hynny;

¹ Gofal iechyd annibynnol – gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu gan y gwasanaeth iechyd.

- cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial;
- cael defnyddio gwasanaeth eiriolwyr annibynnol a chael eu cefnogi i fynegi pryderon a chwynion;
- cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan eu bod yn dymuno gwneud hynny.

1.5 Yn rhan o'n proses arolygu, rydym yn cynnal trafodaethau trylwyr, yn rheolaidd, â chleifion ac aelodau staff ac yn arsylwi'n ofalus yr ymadweithio rhwng cleifion a staff. Fe allem hefyd gyfarfod ag aelodau o'r teulu neu eiriolwyr cleifion i ofyn eu barn am y gofal a ddarperir. Yn ogystal ag adolygu pa mor briodol yw'r amgylchedd ffisegol, rydym yn gwerthuso safon amrywiaeth o ddogfennau gan gynnwys cynlluniau gofal cleifion, polisïau a gweithdrefnau, cynlluniau hyfforddiant a hyfforddiant sefydlu'r staff, a chofnodion cwynion, ataliad a digwyddiadau. Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol a lleyg i gynnal y broses arolygu, gan gynnwys adolygwr â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiad â Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Llanarth Court

1.6 Cofrestrwyd Ysbyty Llanarth Court am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 1992, ac mae wedi ei gofrestru ar hyn o bryd ar gyfer cant a phedwar ar ddeg (114) o gleifion ac un (1) gwely ar gyfer argyfwng mewn saith ward ac un byngalo adsefydlu. Mae pob un o'r saith ward yn cynnig llety i gleifion sydd ag anghenion penodol mewn amgylchedd diogel.

- Mae ward Awen yn ward diogelwch canolig² sy'n cynnig llety i hyd at un ar bymtheg (16) o oedolion benywaidd rhwng 18 a 65 mlwydd

² Gwasanaeth diogelwch canolig – mae unedau diogelwch canolig yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr, amlddisgyblaethol gan staff cymwysedig i gleifion sy'n arddangos ymddygiad cythryblus yng nghyd-destun anhwylder meddwl difrifol ac y mae angen y ddarpariaeth o ddiogelwch canolig ar eu cyfer.

oed a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983³, ac sydd wedi cael diagnosis o salwch meddwl a/neu anhwylder personoliaeth y gellir darparu triniaeth ar ei gyfer⁴ neu gyfuniad o'r ddau hyn.

- Mae ward Howell yn ward diogelwch canolig sy'n darparu asesiad a/neu driniaeth ar gyfer hyd at ddau ar bymtheg (17) o oedolion gwrywaidd 18 mlwydd oed neu hŷn a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddwl.
- Mae ward Iddon yn ward diogelwch canolig sy'n darparu asesiad a/neu driniaeth ar gyfer hyd at ddau ar bymtheg (17) o oedolion gwrywaidd 18 mlwydd oedd neu hŷn a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac sydd wedi cael diagnosis o anhwylder meddwl.
- Mae ward Osbern yn ward diogelwch canolig sy'n darparu asesiad, adolygiad a thriniaeth ar gyfer hyd at un ar ddeg (11) o oedolion gwrywaidd rhwng 18 a 65 mlwydd oed a gedwir yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sydd wedi cael diagnosis o anawsterau dysgu ffiniol i gymedrol ac sydd ag anghenion iechyd meddwl.
- Mae ward Teilo yn ward diogelwch isel⁵ sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu ar gyfer hyd at ugain (20) o oedolion gwrywaidd 18 mlwydd oed a hŷn ac a allai fod yn agored i gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac sydd angen gwasanaeth adsefydlu ar gyfer anhwylder meddwl.

³ Deddf Iechyd Meddwl 1983 – ddeddfwriaeth sy'n rheoli triniaeth pobl sydd ag anhwylder meddwl y difinnir ei fod yn cynnwys salwch meddwl, anhwylder personoliaeth ac anabledd dysgu.

⁴ Anhwylder personoliaeth – y diffiniad diagnostig yw patrwm parhaus o brofiad mewnlol ac ymddygiad sy'n wahanol iawn i'r hyn a ddisgwylid o ystyried diwylliant yr unigolyn, sy'n hollbresennol ac yn anhyblyg, sy'n dod ymlaen yn ystod cyfnod llencyndod neu oedolyn cynnar, sy'n sefydlog dros gyfnod, ac sy'n arwain at ofid neu amhariad.

⁵ Gwasanaeth diogelwch isel – mae unedau diogelwch isel yn cynnig triniaeth a gofal dwys, cynhwysfawr, aml-disgyblaethol gan staff cymwysedig i gleifion sy'n arddangos ymddygiad cythryblus yng nghyd-destun anhwylder meddwl difrifol ac y mae angen y ddarpariaeth o ddiogelwch isel ar eu cyfer.

- Mae ward Treowen yn ward diogelwch isel sy'n darparu gwasanaeth adsefydlu ar gyfer hyd at bedwar ar bymtheg (19) o oedolion gwrywaidd 18 mlwydd oed neu hŷn a allai fod yn agored i gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, sydd angen gwasanaeth adsefydlu ar gyfer anhwylder meddwl. Mae hyn yn cynnwys un (1) gwely y sicrheir ei fod ar gael i gynnig llety i gleifion o Ysbyty Annibynnol Aderyn, ger Pont-y-pŵl pe byddent angen gofal a thriniaeth dwys mewn argyfwng yn ystod eu hadsefydliad oherwydd atglafychiad o ran eu hanhwylder meddwl.
- Mae byngalo Woodland yn wasanaeth agored sy'n darparu adsefydliad ar gyfer hyd at bedwar (4) o oedolion benywaidd rhwng 18 a 65 mlwydd oed a allai fod yn agored i gael eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, ac a dderbyniwyd i ward Awen yn flaenorol.
- Mae ward Deri yn wasanaeth diogelwch isel sy'n darparu asesiad ar gyfer hyd at un ar ddeg (11) o oedolion gwrywaidd 18 mlwydd oed neu hŷn, ac sydd wedi eu cadw'n gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Bydd cleifion a dderbynnir i ward Deri yn dioddef o anhwylder meddwl lle y maent wedi cael diagnosis, neu bydd amheuaeth eu bod yn dioddef o anhwylder o'r fath.

1.7 Partnership in Care Ltd yw'r darparwr cofrestredig⁶, ac mae'r ysbyty wedi ei leoli ychydig filltiroedd y tu allan i dref farchnad Y Fenni.

1.8 Cynhaliodd AGIC ymweliadau dirybudd ag Ysbyty Llanarth Court ar 16 ac 17 Awst 2011. Dilynwyd hyn gan ymweliad dirybudd arall ar 19 Medi 2011. Roedd y darparwr cofrestredig ar gael ar bob un o dri diwrnod yr ymweliadau arolygu.

⁶ Darparwr cofrestredig - unigolyn neu gwmni sydd wedi ei gofrestru dan ran II o'r Ddeddf fel yr unigolyn sy'n rhedeg y sefydliad neu'r asiantaeth.

1.9 Nodir y canfyddiadau a ddeilliodd o'r ymweliadau hynny yn Adran 2 yr adroddiad hwn. Rydym wedi nodi meysydd o gryfder yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella. Mae Adran 4 yr adroddiad hwn yn rhestru gofynion AGIC o ran camau gweithredu.

2. Ein Canfyddiadau

2.1 Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwn wedi'i drefnu ar sail cyfres o gwestiynau sylfaenol yr ydym ni'n teimlo y byddai cleifion, eu perthnasau a chomisiynwyr gwasanaethau⁷ yn dymuno i ni eu gofyn. Er mwyn eu gwneud yn eglur ac yn haws cyfeirio atynt, rydym wedi nodi ein canfyddiadau o dan bennawd pob cwestiwn. Ystyrir y cwestiwn cyntaf:

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'

yn Adran 3 yr adroddiad hwn, lle'r ydym yn cyflwyno ein casgliadau a'r camau nesaf. Ni ellir ond ateb y cwestiwn hwn ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r cwestiynau isod:

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol?'

2.2 Roedd cleifion yn derbyn gofal ar bob un o'r saith ward ar adeg ein hymweliadau.

Ward Awen

2.3 Roedd safon yr addurno yn rhai manau o'r ward yn foddhaol, ac roeddent yn lân ac yn daclus yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud peth gwaith ailaddurno ac adnewyddu mewn llawer o fannau ar y ward, ac roedd y staff a gyfwelwyd yn dweud bod naws clinigol i'r ward, yn hytrach na chartrefol. Roedd ystafelloedd y cleifion yn fawr ac yn cynnwys cyfleusterau en suite, ac roeddent yn gallu cloi eu hystafelloedd, ond roedd cyfleuster ar gael i agor y cloeau hyn pe byddai staff angen mynd i mewn. Roedd nifer o ystafelloedd penodol ar y ward a oedd wedi eu neilltuo i ddibenion amrywiol, ond nid oedd yr ystafell a nodwyd ar gyfer *'ymlacio'* yn briodol iawn i annog

⁷ Comisiynwyr gwasanaethau – y sefydliad sy'n prynu gwasanaethau a thriniaeth gan y darparwr cofrestredig.

ymlacio. Roedd angen mwy o leoedd eistedd ar y ward, a chafwyd nifer o sylwadau ynglŷn â'r ffaith fod y ward yn rhy boeth neu'n rhy oer. Yn ogystal, mae'n rhaid adolygu amgylchedd y ward er mwyn sicrhau ei bod yn gallu bodloni'n ddigonol anghenion grŵp amrywiol o gleifion sydd ag ystod o anghenion. Cydnabuwyd bod y ward yn llawer mwy sefydlog nag yr oedd yn ystod yr ymweliad arolygu blaenorol.

2.4 Roedd angen ailgynllunio'r '*Ystafell Gofal Dwys*' er mwyn diogelwch y cleifion a'r staff oherwydd byddai angen i glaf sy'n defnyddio'r man hwn adael y prif fan i allu defnyddio'r tŷ bach cyfagos. Mae'n rhaid ystyried creu mynediad at y tŷ bach trwy'r brif ystafell gofal dwys.

Ward Howell

2.5 Roedd yr amgylchedd yn ymddangos yn dreuliedig, ac roedd diffyg dodrefn yno, yn ogystal â lleoedd eistedd cymunedol gwael. Roedd angen ailaddurno ac adnewyddu'r ward drwyddi draw. Roedd ystafell dawel ar gael, ond, roedd angen ailaddurno ac adnewyddu'r ystafell hon hefyd. Roedd loceri ar gael i gleifion ond roedd rhai o'u drysau wedi torri. Roedd gan y cleifion ystafelloedd gwely unigol, ac roedd tai bach ac ystafelloedd ymolchi cymunedol ar gael. Yn gyffredinol, nid oedd y ward yn teimlo'n gyfforddus a chartrefol, ac nid oedd yn darparu amgylchedd therapiwtig. Roedd y cleifion yn cael mynd i fan penodedig y tu allan, ac roedd amseroedd penodol wedi eu neilltuo ar gyfer ysmegu. Yn dilyn yr ymweliad arolygu a chyhoeddi'r adroddiad hwn, cadarnhawyd bod gwaith adnewyddu helaeth wedi ei wneud ar ward Howell.

Ward Iddon

2.6 Roedd y ward yn lân ac roedd y dodrefn wedi ei osod mewn ffordd gartrefol. Roedd hefyd amrywiaeth o luniau a ddyluniwyd gan gleifion wedi eu harddangos ym mhob rhan o'r ward. Fodd bynnag, unwaith eto, roedd angen gwneud gwaith

ailaddurno ac adnewyddu helaeth ar y ward. Yn dilyn yr adroddiad ymweliad arolygu, cadarnhawyd bod gwaith adnewyddu helaeth wedi ei wneud ar ward Iddon.

Ward Osbern

2.7 Roedd y ward yn olau, yn gartrefol, yn groesawgar ac yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ar y cyfan. Ar adeg yr ymweliad, roedd y lolfa yn llawn oherwydd nifer y cleifion a oedd yn derbyn llety ar y ward. Fodd bynnag, roedd nifer o ystafelloedd eraill ar gael ar gyfer cynnal cyfarfodydd â theuluoedd ac aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol.

Ward Teilo

2.8 Roedd yr amgylchedd mewn cyflwr da ar y cyfan, ac roedd yn olau gyda digon o awyr iach. Fodd bynnag, roedd angen gwneud peth gwaith adnewyddu yno a'i glanhau yn drylwyr. Roedd ystafell celf a chreffft ar gael lle yr oedd nifer fawr o luniau a gwaith celf wedi eu harddangos. Roedd nifer sylweddol o fannau cymunedol ar gael, ond roedd diffyg amlwg o luniau a lleni a deunyddiau yn y brif lolfa a mannau eraill. Roedd system galw nyrs ar gael, ond roedd wedi ei ddiffodd yn un o'r ystafelloedd gwely. Nid yw hyn yn dderbyniol, ac yn ystod yr adborth ar lafar, cadarnhawyd wrth y tîm arolygu y byddai hyn yn cael ei unioni ar unwaith. Roedd y cleifion wedi dod â'u heitemau eu hunain i'w hystafelloedd gwely i'w gwneud yn gartrefol, ac roedd pob ystafell wely yn cynnwys cyfleusterau en suite. Yn ogystal, roedd gardd ddifyr a diogel ar gael i'r cleifion ei defnyddio.

2.9 Roedd Ystafell Gofal Dwys benodedig ar gael ar ward Teilo a oedd wrthi'n cael ei hadnewyddu. Fodd bynnag, byddai angen i glaf sy'n defnyddio'r man hwn adael y prif fan i allu defnyddio'r tŷ bach cyfagos. Gallai hyn achosi mwy o broblemau i'r claf a'r staff oherwydd y byddai angen gadael yr ystafell gofal dwys a mynd i fan llai saff a diogel wrth fynd i'r cyfleusterau tŷ bach. Mae'n rhaid ystyried creu mynediad i fan y tŷ bach trwy'r brif ystafell gofal dwys, er mwyn gallu lleihau cymaint â phosibl ar y risgiau amgylcheddol i gleifion a allai fod yn arddangos ymddygiad heriol. Roedd Ystafelloedd

Gofal Dwys ychwanegol hefyd wedi eu lleoli yn yr ysbyty lle yr oedd problemau tebyg o ran y ffaith nad oedd cleifion yn gallu mynd i'r cyfleusterau tŷ bach trwy'r brif ystafell gofal. Mae angen adolygu'r cyfleusterau hyn.

Ward Treowen

2.10 Roedd y ward yn groesawgar a chartrefol iawn, ac roedd lluniau a gwaith celf wedi eu harddangos yn y lolfeydd. Roedd y cleifion wedi dod â'u heitemau eu hunain i'w hystafelloedd gwely i'w gwneud yn gartrefol, ac roedd pob ystafell wely yn cynnwys cyfleusterau en suite. Fodd bynnag, nid oedd sedd ar gael ar y toiled mewn un ystafell wely, ac nid oedd unrhyw duvets na chynfasau ar rai gwelyau. Yn dilyn trafodaeth gyda'r nyrs gofrestrdig ar y ward, cadarnhawyd nad oedd diffyg cynfasau a duvets ar welyau yn ddigwyddiad unigryw, ac y gallai'r sefyllfa hon barhau am nifer o ddyddiau, yn dibynnu ar ysfa claf unigol i ail-wneud y gwely. Mae'n amlwg fod y sefyllfa hon yn annerbyniol ac na ddylid disgwyl i gleifion gysgu mewn gwelyau nad oes duvets na chynfasau arnynt. Yn ogystal, roedd gardd ddifyr a diogel ar gael i'r cleifion ei defnyddio.

2.11 Roedd yr ystafell glinig flaenorol yn cael ei defnyddio ar gyfer cadw offer glanhau a chyflawni gorchwylion glanhau cysylltiedig. Roedd y staff glanhau yn codi bwcedi yn cynnwys dŵr budr ynddynt ac yn ei wagio yn y sinc. Nid yw'r arfer hwn yn dderbyniol, ac mae'n rhaid defnyddio cyfleusterau distreulio penodedig y gofalwyr tŷ ar gyfer cael gwared ar ddŵr budr.

Byngalo Woodland

2.12 Roedd hwn yn darparu amgylchedd hyfryd a chartrefol, ac roedd yn gyfleuster ardderchog i baratoi cleifion ar gyfer eu trosglwyddiad i'r cam nesaf o'u llwybr gofal.

Ward Deri

2.13 Roedd y ward hon wedi ei hadnewyddu a'i hailaddurno drwyddi draw yn 2009. Roedd yn darparu amgylchedd hyfryd iawn ac yn cynnwys ystafell fwyta ac ystafell gyfarfod ar wahân.

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn derbyn gofal a thriniaeth briodol gan staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol?'

Staffio

2.14 Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y niferoedd staffio'n briodol ar gyfer y lefelau o ddibyniaeth a nifer y cleifion a oedd yn derbyn sylw, nac ar gyfer hwyluso a chefnogi absenoldeb adran 17. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a'r cleifion yn gwneud sylwadau negyddol ynglŷn â'r lefelau staffio. Roedd y lefelau staffio yn ystod y nos yn broblem arbennig, a phe byddai mwy nag un digwyddiad yno, roedd yn anodd deall sut y byddai'r lefelau staffio presennol yn ddigonol ar gyfer ymdrin â'r digwyddiadau. Rhoddwyd adborth ar lafar i'r rheolwr cofrestredig ac aelodau o'r tîm rheoli, a gwnaed ymrwymiad i adolygu'r lefelau staffio presennol yn ddi-oed.

2.15 Gwelwyd, yn ddieithriad, fod gan y staff berthynas dda â'r cleifion a bod ganddynt wybodaeth dda am eu hanghenion a'u dewisiadau. Roedd y staff a gyfwelwyd yn wybodus iawn am y grŵp cleifion yn gyffredinol, ac roeddent yn ymwybodol o'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Roedd adborth gan gleifion yn dangos bod y staff fel arfer yn ymateb yn gyflym i anghenion y cleifion.

Hyfforddiant Staff

2.16 Cyfwelwyd 11 aelod o staff yn ystod ein hymweliadau, a dywedodd y staff wrthym fod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi yn cael eu cynnig iddynt. Roedd y staff wedi dilyn hyfforddiant amrywiol, gan gynnwys Rheoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol, Cymorth Cyntaf yn y Gweithle, Iechyd a Diogelwch, y Ddeddf Iechyd Meddwl, cod ymarfer, rheoli heintiau, hylendid bwyd, Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed, ac atebolrwydd nyrsys cofrestredig. Roedd dadansoddiad o anghenion hyfforddi hefyd wedi ei greu ar gyfer 2012, ac roedd hwn yn canolbwyntio ar raglen hyfforddiant sefydlu ar gyfer gweithwyr cyflogedig newydd, ac ar nifer o feysydd eraill, gan gynnwys arweinyddiaeth, gwerthusiadau, fflebotomi, ymyraethau seicolegol, a chyfweld ysgogiadol. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael gwerthusiad yn ddiweddar.

2.17 Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

2.18 Roedd protocolau eglur wedi eu sefydlu ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, ond roedd diffyg tystiolaeth i ddangos ôl-drafodaeth a dysgu gwersi yn dilyn digwyddiadau ac ataliadau.

Cofnodion y Staff

2.19 Adolygwyd sampl o gofnodion y staff, ac roedd yr holl gofnodion a adolygwyd yn cynnwys ffurflenni cais, tystlythyrau, archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, archwiliad/datganiad meddygol, tystiolaeth o gymwysterau a gyflawnwyd ac o gofrestrriad priodol â chorff proffesiynol.

Polisiâu a Gweithdrefnau

2.20 Roedd amrywiaeth helaeth o bolisiâu a gweithdrefnau wedi eu sefydlu, a gwelwyd tystiolaeth fod y staff yn ymwybodol ohonynt a'u bod yn gwybod ble i gael gafael ar y polisiâu pe byddent angen cyfeirio atynt.

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth eu hunain, eu cynorthwyo i fod mor annibynnol ag y bo modd, ac yn cael gwneud dewisiadau a'u hannog i wneud hynny?'

Cofnodion Gofal

2.21 Adolygwyd dogfennau cynlluniau gofal, a gwelwyd tystiolaeth i ddangos bod y cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal. Fodd bynnag, pan oedd cleifion wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn y broses, nid oedd y rhesymau dros hynny wedi eu cofnodi, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth ar gael i ddangos bod ymdrechion wedi eu gwneud i ailymgysylltu'r claf â'r broses. Roedd dewisiadau ac anghenion y cleifion wedi eu cofnodi'n dda, ac roedd yn amlwg fod newidiadau i gynlluniau yn cael eu trafod gyda rhai o'r cleifion. Pan oedd cleifion angen defnyddio'r Ystafell Gofal Dwys, roedd y rhesymau dros hynny wedi eu cofnodi'n dda, a gwelwyd proses o adolygu. Roedd y cynlluniau gofal yn adlewyrchu anghenion y cleifion yn gyffredinol, ac roedd gwahanol lefelau o arsylwadau wedi eu cofnodi ar gyfer y cleifion. Yn ogystal, gwelwyd bod y cynlluniau gofal wedi eu gwerthuso a'u hadolygu'n gyffredinol yn unol ag amserlenni penodol. Prin oedd y dystiolaeth i ddangos bod perthnasau yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal.

2.22 Cynhelir amrywiaeth o asesiadau risg ar gyfer cleifion unigol, ac roedd yn amlwg fod y penderfyniadau ynglŷn â'r gofal i gleifion yn cael eu seilio ar y rhain. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bwysig fod yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

2.23 Roedd cyfraniad y tîm amlddisgyblaethol a'r Dull Rhaglen Ofal wedi eu cofnodi'n dda iawn, ac roedd y niferoedd a oedd yn mynychu cyfarfodydd y Dull Rhaglen Ofal yn uchel. Roedd cyfeiriad yn y dogfennau hefyd at y ffaith fod y cleifion yn cael eu gweld gan eu cydgysylltydd gofal yn y gymuned, yn ogystal â pheth tystiolaeth i ddangos bod y teuluoedd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Dull Rhaglen Ofal.

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu potensial?'

Gweithgareddau

2.24 Roedd yr ysbyty yn cyflogi amrywiaeth o Therapyddion Galwedigaethol a chydgysylltwyr gweithgareddau. Roedd y Therapyddion Galwedigaethol yn llunio cynllun o weithgareddau, ac roedd amserlenni wardiau hefyd ar gael.

2.25 Roedd cyfleusterau helaeth ar gael yn yr ysbyty, gan gynnwys pwll nofio, ystafell ffitrwydd, ystafell gelf, cegin, man ystafell ddsbarth a man sgiliau ymarferol eang a oedd yn cynnwys gwaith coed, gardd fawr a man bychan amgaeëdig ar gyfer anifeiliaid. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfleusterau hyn yn cael eu defnyddio yn ystod yr ymweliad, a hynny'n bennaf oherwydd nad oedd digon o staff ar gael i oruchwylio'r gweithgareddau.

2.26 Trafodwyd amrywiaeth o faterion gyda'r cleifion, gan ganolbwyntio ar ba un a oeddent yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynorthwyo'n briodol gyda gweithgareddau. Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn teimlo'n ddiogel ac yn teimlo eu bod yn cael gwneud rhai penderfyniadau ynglŷn â gweithgareddau a diet. Fodd bynnag, roedd yr effaith yr oedd y sefyllfa staffio yn ei chael ar y ddarpariaeth o weithgareddau yn thema a oedd yn codi dro ar ôl tro. Mae angen adolygu'r maes hwn yn ddi-oed, er mwyn sicrhau bod digon o staff ar gael i gynorthwyo cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac

absenoldeb adran 17. Roedd y gweithgareddau'n arbennig o gyfyngedig yn ystod y penwythnosau a chyda'r nos.

2.27 Roedd adborth gan gleifion hefyd yn dangos eu bod yn gweld eisiau'r sesiynau therapi cerdd a oedd wedi eu darparu'n flaenorol. Bu gostyngiad o ran therapyddion chwaraeon – o bedwar i ddau – yn ystod y flwyddyn, a hefyd, roedd un o'r therapyddion hyn yn darparu hyfforddiant ar Reoli Trais ac Ymddygiad Ymosodol ar gyfer yr ysbyty. O ystyried y gostyngiad diweddar a'r swyddogaeth ychwanegol a oedd gan un o'r therapyddion chwaraeon, roedd yn amlwg fod hyn wedi cael effaith sylweddol iawn ar faint o therapi chwaraeon a oedd ar gael i'r cleifion. Yn ychwanegol, roedd y ffaith fod diffyg o ran staff ward a oedd ar gael hefyd yn cael effaith negyddol ar allu'r therapyddion chwaraeon i gyflenwi rhaglen effeithiol o weithgareddau.

2.28 Roedd y cynlluniau gofal yn cyfeirio at amrywiaeth o therapi grŵp a gweithgareddau, ac roedd ystod o weithgareddau wedi eu nodi ar gyfer pob claf i allu bodloni eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd y ffaith nad oedd y cleifion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau oherwydd diffyg staff yn thema a oedd yn codi o hyd trwy gydol yr ymweliad.

Arlwyo

2.29 O ran diet a maeth, roedd dewis ar gael ar y fwydlen ar gyfer y cleifion, ac roedd ffrwythau ffres, sudd, diodydd poeth a dŵr ar gael iddynt. Roedd y farn ar y bwyd yn parhau i amrywio'n helaeth rhwng da a gwael. Roedd nifer o gleifion yn dweud bod y bwyd yn cael ei weini yn oer neu'n llugoer yn aml. Cafwyd sylwadau hefyd ynglŷn â diffyg dewis, yn enwedig ar amser swper, ac roedd llawer o'r cleifion a'r staff o'r farn y gellid gwella ansawdd y prydau bwyd.

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael defnyddio gwasanaethau eiriolwyr annibynnol ac a oeddynt yn cael eu cynorthwyo i fynegi pryderon a chwynion?'

Eiriolaeth, Pryderon a Chwynion

2.30 Roedd y cleifion yn deall yn dda sut i godi unrhyw bryderon a gwneud cwynion, ac roeddent hefyd yn gwybod sut i gael gafael ar wasanaethau eirioli. Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael i gleifion am eiriolaeth a sut i wneud cwyn wedi ei harddangos yn y wardiau yr ymwelwyd â hwy.

2.31 Mae'r eiriolwr yn ymweld â'r wardiau bob wythnos, ac yn amlach os gofynnir am hynny. Roedd y staff hefyd yn fwy na pharod i godi pryderon ar ran y cleifion.

2.32 Cynhaliwyd adolygiad o gwynion yn rhan o'r broses arolygu. Roedd amrywiaeth eang o gwynion nad oedd iddynt themâu penodol, ac roedd cwynion wedi eu gwneud gan amrywiaeth o unigolion, gan gynnwys yr eiriolwr a'r staff ar ran cleifion. Roedd ymateb ar gael ar gyfer pob un o'r cwynion, ond roedd diffyg dadansoddiad neu wybodaeth i gadarnhau bod gwersi wedi eu dysgu o'r cwynion a oedd wedi eu cadarnhau.

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â ffrindiau ac aelodau o'r teulu pan oeddynt yn dymuno gwneud hynny?'

2.33 Roedd ffôn ar gael ar gyfer y cleifion, ond nid oedd lleoliad llawer o'r ffonau hyn yn hyrwyddo preifatrwydd ar gyfer y cleifion.

2.34 Roedd nifer o'r cleifion yn derbyn absenoldeb adran 17, ac roedd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal perthynas â'u teuluoedd. Fodd bynnag, prin iawn oedd y dystiolaeth i ddangos bod perthnasau yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal, ac ni roddwyd unrhyw reswm dros y ffaith nad oeddent yn cymryd rhan. Fodd bynnag, roedd peth dystiolaeth ar gael i ddangos bod y perthnasau yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Dull Rhaglen Ofal, ac roedd y cleifion a gyfwelwyd o'r farn fod teuluoedd yn cael cymryd rhan.

3. Casgliad

'A oedd y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ar adeg ein hymweliad yn ddiogel?'

3.1 Yn ystod ein hymweliadau a gynhaliwyd ar 16 ac 17 Awst, ac ar 19 Medi 2011, nodwyd nifer o ofynion rheoliadol, ac mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig gyflwyno cynllun gweithredu i ni sy'n bodloni'r amserlenni penodol a nodir isod. Yn dilyn pob un o'r ymweliadau, rhoddwyd adborth eang ar lafar, ac mae gwybodaeth ychwanegol a chynllun gweithredu ynglŷn â gwneud gwaith adnewyddu ar y wardiau wedi ei dderbyn ers hynny.

3.2 Roedd y grŵp staff yn ymroddedig iawn, a gwelwyd bod perthynas dda yn bodoli rhwng y cleifion a'r staff trwy gydol yr ymweliad arolygu. Roedd y staff yn ymadweithio'n dda iawn gyda'r cleifion, ac roedd y sgysiau yn gyfeillgar a phriodol. Fodd bynnag, un o'r problemau allweddol a nodwyd oedd yr effaith yr oedd y lefelau staffio yn ei chael ar y ddarpariaeth o weithgareddau ar gyfer cleifion yn ystod absenoldeb adran 17.

4. Gofynion

4.1 Mae'r gofynion a nodir isod yn mynd i'r afael ag unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a nodwyd un ai o ganlyniad i'r arolygiad neu yn sgil gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan ac ynglŷn â'r darparwr. Yr *'unigolyn cofrestredig'* sydd, yn ôl y ddeddfwriaeth, yn cynnwys darparwr cofrestredig a/neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, sy'n gyfrifol am gyflawni'r gofynion hyn. Rhaid i'r unigolyn cofrestredig ddarparu cynllun gweithredu sy'n cadarnhau sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r camau gofynnol. Os bydd angen, bydd AGIC yn cymryd camau gorfodi i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau.

Safon Ofynnol Genedlaethol	Rheoliad	Canfyddiadau (Rhif y Paragraff)	Camau Gofynnol	Amserlen
12	26 (2) (a) ac (c)	2.4 a 2.9	Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr <i>'Ystafelloedd Gofal Dwys'</i> yn cael eu hailgynllunio er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff. Mae'n rhaid i hyn gynnwys gwella'r mynediad at y cyfleusterau tŷ bach penodedig trwy'r brif ystafell gofal dwys.	Rhaid cyflwyno cynigion erbyn 28 Medi 2012.

12	18 (1) (a) a 26 (2) (a) a (b)	2.3, 2.6, 2.8, 2.10 a 2.33	<p>Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig roi sylw i'r holl faterion amgylcheddol a nodir yn yr adroddiad, yn benodol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adnewyddu'r ystafell ymlacio ar Ward Awen. • Darparu mwy o leoedd eistedd a sicrhau bod tymheredd y gwres yn gyson ar Ward Awen. • Adnewyddu Ward Teilo a'i glanhau yn drylwyr. • Darparu lluniau a llenni a deunyddiau yn y brif lolfa ar Ward Teilo. • Mae'n rhaid i'r system galw nyrs fod yn gweithio bob amser ym mhob un o ystafelloedd y cleifion (derbyniwyd cadarnhad gan y darparwr cofrestredig fod y maes hwn wedi derbyn sylw ar unwaith). • Mae'n rhaid gosod sedd doiled yn ystafell wely 10 ar Ward Treowen. Mae angen gosod cynfasau a duvets ar welyau'r holl gleifion. 	<p>Mae angen cyflwyno cynllun gweithredu erbyn 28 Medi 2012 i ddangos sut y bydd yr holl feysydd hyn yn derbyn sylw.</p>
----	-------------------------------------	-------------------------------	--	--

			<ul style="list-style-type: none"> Mae'n rhaid darparu cyfleusterau ffôn sy'n hyrwyddo preifatrwydd ar gyfer y cleifion. 	
13	9 (1) (l)	2.11	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn ddigonol. Dylai hyn gynnwys y system ar gyfer cael gwared ar ddŵr budr o fwcledi mopiau.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
12	26 (2) (c)	2.3	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod cynllun ystafelloedd y sefydliad yn briodol ar gyfer y defnydd a wneir ohonynt. Gwneir y gofyniad hwn yn benodol ynglŷn â Ward Awen.	Mae'n rhaid cyflwyno cynllun gweithredu ar gyfer yr amgylchedd ar Ward Awen i AGIC erbyn 28 Medi 2012.
25	15 (1) (a) a (b) a 20 (1) (a)	2.14, 2.25, 2.26, 2.27 a 2.28	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod unigolion sydd â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol bob amser yn gweithio yn y sefydliad yn y fath niferoedd ag sy'n briodol ar gyfer bodloni anghenion iechyd a lles y cleifion. Mae'n ofynnol i niferoedd y staff fod yn ddigonol ar gyfer hwyluso absenoldeb adran 17 a rhan y cleifion mewn gweithgareddau, gan gynnwys therapi chwaraeon.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.

23	19 (2) (c) (i) a (ii) a 24 (5)	2.18 a 2.32	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cynhelir ôl-drafodaethau a bod gwersi yn cael eu dysgu yn dilyn cwynion, digwyddiadau ac ataliadau.	Rhaid cyflwyno system erbyn 28 Medi 2012.
8	15 (1) (a) (b) ac (c)	2.21, 2.22 a 2.34	Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig sicrhau cadw cofnodion llawn o bob ymdrech a wneir i ymgysylltu'r cleifion â'r broses o gynllunio gofal a'r ymdrechion a wneir i sicrhau bod teuluoedd y cleifion yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio gofal.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.
14	15 (1) (a) a (b)	2.29	Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod yr holl brydau bwyd yn cael eu gweini ar y tymheredd cywir, bod eu hansawdd yn briodol, a bod dewis ar gael i'r cleifion.	Yn ddi-oed ac yn barhaus.

5. Y Camau Nesaf

5.1 Mae'n ofynnol i'r darparwr cofrestredig anfon cynllun gweithredu at AGIC yn mynd i'r afael â'r holl feysydd rheoleiddio a nodwyd yn yr adroddiad hwn, a hynny o fewn yr amserlenni a nodwyd yn y tabl gofynion uchod. Cydnabyddir bod y darparwr cofrestredig eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r meysydd yn dilyn ein sesiwn adborth a'n trafodaethau dilynol.